

PWYSIG

Nodiadau i Atebwyr

Cyflwynwyd copi o hysbysiad apelydd (apêl) i chi.

Os yw'r hysbysiad yn cynnwys cais am ganiatâd i apelio, nid oes angen i chi wneud dim oni bai a nes bydd y llys yn eich hysbysu bod caniatâd wedi'i roi i'r apelydd.

Os rhoddir caniatâd, dim ond hyn a hyn o amser sydd gennych i ymateb i'r apêl. Rhaid i chi benderfynu beth i'w wneud yn gyflym.

Gallwch:

- apelio yn erbyn yr un gorchymyn;
- gofyn am gael amrywio'r gorchymyn;
- gofyn i'r llys apêl gadarnhau'r gorchymyn am resymau gwahanol neu ar wahân i'r rhai a roddwyd gan y llys is (y llys a wnaeth y gorchymyn y mae'r apêl yn ymwneud ag ef);
- gofyn i'r llys apêl gadarnhau'r gorchymyn am yr un rhesymau ag y dibynnwyd arnynt gan y llys is;
- gwneud dim.

Os ydych yn dymuno apelio, amrywio neu gadarnhau'r gorchymyn y mae'r apêl yn ymwneud ag ef am resymau gwahanol neu ychwanegol, **bydd angen i chi lenwi Hysbysiad Atebydd (Ffurflen FP162)** a'i anfon i'r llys. **Fel arfer bydd angen i chi gael caniatâd i apelio, ac ychydig iawn o amser fydd gennych i wneud hyn.** Mae copïau o ffurflen FP162, y nodiadau canllaw ar lenwi'r ffurflen (**FP162A – Nodiadau canllaw ar lenwi'r hysbysiad atebydd**) a thaflen **EX340 - 'Rwyf am apelio'** i'w cael:

- drwy eu lawrlwytho o hmctsformfinder.justice.gov.uk;
- gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu;
- drwy anfon llythyr i Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain, WC2A 2LL.

Gall staff llys egluro'r terfynau amser a dweud wrthyich pa ddogfennau y bydd angen i chi eu cael i gefnogi eich apêl, ond allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi (e.e. dweud a ddylech apelio, a ddylech ymateb i apêl yr apelydd neu ba mor llwyddiannus fyddai unrhyw apêl) na dweud wrthyich beth i'w ysgrifennu ar y ffurflen.

Os ydych yn syml iawn yn dymuno gofyn i'r llys apêl gadarnhau'r gorchymyn am y rhesymau a roddwyd yn y llys is, ond bod gennych ddadleuon ychwanegol i'w gwneud yn y llys apêl, dylech hefyd lenwi hysbysiad atebydd. Neu, gallwch amlinellu'r dadleuon ychwanegol hyn mewn dogfen ar wahân (y cyfeirir ati fel 'Dadl Fframwaith'), sy'n amlinellu'r pwyntiau y dymunwch eu cyflwyno i'r llys apêl. Os byddwch yn ffeilio dadl fframwaith, ar gyfer pob un o seiliau'r apêl, dylech ysgrifennu ychydig o frawddegau yn egluro pam yr ydych eisiau i'r llys apêl gadarnhau penderfyniad y llys is. Gellir cael gwybodaeth am wneud apêl i Adran Deulu'r Uchel Lys drwy anfon llythyr i Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice, Strand, WC2A 2LL; DX 44450 Strand; neu ffonio 020 7947 7192.

Os na fyddwch yn llenwi hysbysiad atebydd ac yn nodi'n glir beth yw seiliau'r apêl, ni fyddwch yn gallu dibynnu ar unrhyw ddadleuon ychwanegol yn ddiweddarach yng ngwrandawriad yr apêl na chawsant eu codi yn y llys is, oni bai fod y llys yn rhoi caniatâd i chi.